OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 1806

## Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005

## RHAN 6

SYMUD GWASTRAFF PERYGLUS

*Y dogfennau sydd i'w cwblhau ar gyfer llwythi*

**Cwblhau nodiadau traddodi**

**35.**—(1) Pan symudir gwastraff peryglus o unrhyw fangre—

(a) rhaid cwblhau nodyn traddodi yn unol â pharagraff (3) o'r rheoliad hwn a gofynion y rheoliad perthnasol os yw un o'r rheoliadau canlynol yn gymwys—

(i) rheoliad 36 (y weithdrefn safonol);

(ii) rheoliad 39 (symud gwastraff llong i gyfleusterau derbyn);

(iii) rheoliad 40 (symud gwastraff llong heblaw i gyfleusterau derbyn);

(iv) rheoliad 41 (symud gwastraff drwy biblinell); neu

(v) pan wrthodir y llwyth neu unrhyw ran ohono gan y traddodai, ym mhob achos yn unol â rheoliad 42 a 43;

(b) os bydd rheoliad 37 (Atodlen y cludwyr) yn gymwys, rhaid cwblhau atodlen y cludwyr yn unol â'r rheoliad hwnnw a pharagraff (3) o'r rheoliad hwn; ac

(c) os bydd rheoliad 38 (amlgasgliad) neu reoliad 44 (gweithdrefn amlgasglu ar gyfer llwythi a wrthodwyd) yn gymwys, rhaid cwblhau nodyn traddodi amlgasgliad yn unol â'r rheoliad cymwysadwy hwnnw a pharagraff (4) o'r rheoliad hwn.

(2) Mae ffurf y nodyn traddodi a geir yn Atodlen 4, neu ffurf sydd yn gofyn am yr un wybodaeth yn yr un fformat ar y cyfan, i gael ei defnyddio a rhaid ei chwblhau fel y bydd yn cynnwys (lle dangosir yn y ffurf) yr holl wybodaeth y darparwyd ar ei chyfer yn yr Atodlen honno sy'n gymwys i'r achos.

(3) Mae ffurf atodlen y cludwyr a geir yn Atodlen 5, neu ffurf sydd yn gofyn am yr un wybodaeth yn yr un fformat ar y cyfan, i gael ei defnyddio a rhaid ei chwblhau fel y bydd yn cynnwys (lle dangosir yn y ffurf) yr holl wybodaeth y darparwyd ar ei chyfer yn yr Atodlen honno sy'n gymwys i'r achos.

(4) Mae ffurf y nodyn traddodi amlgasgliad a geir yn Atodlen 6, neu ffurf sy'n gofyn am yr un wybodaeth yn yr un fformat ar y cyfan, i gael ei defnyddio a rhaid ei chwblhau fel y bydd yn cynnwys (lle dangosir yn y ffurf) yr holl wybodaeth y darparwyd ar ei chyfer yn yr Atodlen honno sy'n gymwys i'r achos.

(5) Yn y Rhan hon, mae cyfeiriad at ran o nodyn traddodi, atodlen y cludwyr neu nodyn traddodi amlgasgliad wrth ei Rhif neu ddisgrifiad yn gyfeiriad at y rhan honno fel y mae'n ofynnol iddi gael ei Rhif o neu ei disgrifio yn ôl y digwydd yn y ffurf yn Atodlen 4, 5 neu 6 yn ôl y gofyn.

**Y weithdrefn safonol**

**36.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys ym mhob achos lle mae llwyth o wastraff peryglus i'w symud o fangre ac eithrio mewn achosion y mae unrhyw rai o reoliadau 38 i 41 yn gymwys iddynt.

(2) Cyn symud y llwyth—

(a) rhaid i gynhyrchydd, neu ddeiliad, y gwastraff peryglus yn ôl y digwydd—

(i) paratoi copi o'r nodyn traddodi ar gyfer pob un o'r canlynol: cynhyrchydd neu ddeiliad y gwastraff peryglus (os yw'n wahanol i'r traddodwr); y traddodwr; y cludwr; a'r traddodai;

(ii) cwblhau Rhannau A a B ar bob copi; a

(iii) rhoi pob copi i'r cludwr;

(b) rhaid i'r cludwr gwblhau Rhan C ar bob copi a rhoi pob copi i'r traddodwr;

(c) rhaid i'r traddodwr—

(i) cwblhau Rhan D ar bob copi;

(ii) os nad y cynhyrchydd neu ddeiliad y gwastraff peryglus, yn ôl y digwydd, yw'r traddodwr, rhoi un copi iddo;

(iii) cadw un copi; a

(iv) rhoi pob copi sy'n weddill i'r cludwr.

(3) Rhaid i'r cludwr sicrhau bod pob copi a dderbyniodd—

(a) yn teithio gyda'r llwyth; a

(b) yn cael ei roi i'r traddodai pan draddodir y llwyth.

(4) Yn ddarostyngedig i reoliad 42, wrth dderbyn y llwyth, rhaid i'r traddodai—

(a) cwblhau Rhan E ar y ddau gopi; a

(b) rhoi un copi i'r cludwr.

**Atodlen y cludwyr**

**37.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys ym mhob achos (p'un ai o dan reoliad 36, neu reoliad 40) os oes mwy nag un cludwr yn cludo'r llwyth, neu i gludo'r llwyth.

(2) Cyn symud y llwyth—

(a) rhaid i'r traddodwr—

(i) paratoi copi o atodlen y cludwyr i gynhyrchydd neu ddeiliad y gwastraff peryglus (os yw'n wahanol i'r traddodwr), y traddodwr, pob cludwr a'r traddodai; a

(ii) rhoi pob copi i'r cludwr cyntaf;

(b) rhaid i'r cludwr cyntaf sicrhau bod pob copi y mae wedi'i dderbyn yn teithio gyda'r llwyth;

(c) wrth draddodi llwyth i bob cludwr dilynol—

(i) rhaid i'r cludwr blaenorol roi i'r cludwr dilynol bob copi o'r atodlen y mae wedi'i gael;

(ii) rhaid i'r cludwr dilynol gwblhau'r dystysgrif berthnasol ar bob copi, rhoi un i'r cludwr blaenorol a rhaid iddo gadw'r copi, a sicrhau bod pob copi sy'n weddill ac y mae wedi'i dderbyn yn teithio gyda'r llwyth; a

(iii) pan draddodir llwyth i draddodai, rhaid i'r cludwr gadw un copi o atodlen y cludwyr a rhoi pob copi sy'n weddill i'r traddodai.

(3) Pan fo—

(a) trefniadau ar gyfer cludo'r llwyth heb eu gwneud gyda'r holl gludwyr y bwriedir iddynt fod yn ymwneud ag ef cyn cychwyn cludo; neu

(b) bod newid mewn unrhyw drefniadau o'r fath am unrhyw reswm ar ôl i'r cludo ddechrau,

mae paragraff (2) yn gymwys fel pe bai'r cludwr mewn meddiant o'r llwyth pan wneir trefniadau pellach, yn achos paragraff (a), neu'n effeithiol, yn achos paragraff (b), yn draddodwr a phe bai'r cludwr nesaf yn gludwr cyntaf.

(4) Pan fydd y rheoliad hwn yn gymwys, heblaw mewn achos o lwyth o wastraff peryglus a wrthodwyd, mae rheoliad 36 yn effeithiol fel pe bai—

(a) cyfeiriad at wastraff peryglus yn cael ei symud yn cynnwys cyfeiriad at ei feddiant yn cael ei drosglwyddo i'r cludwr nesaf;

(b) ym mharagraff (2)(a)(i), y cyfeiriad at "y cludwr" yn gyfeiriad at "bob cludwr";

(c) ym mharagraff (2)(a)(iii), 2(b) a (2)(c)(iv), y cyfeiriad at "y cludwr" yn gyfeiriad at "y cludwr cyntaf";

(ch) ym mharagraff (3)(b) mewn perthynas â chludwr nad yw'n gludwr olaf, y cyfeiriad at "y traddodai" yn gyfeiriad at "y cludwr dilynol";

(d) ym mharagraff (4)(b), y cyfeiriad at "y cludwr" yn gyfeiriad at "y cludwr olaf".

**Amlgasgliadau**

**38.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i daith a wneir gan gludwr unigol sy'n bodloni'r amodau canlynol—

(a) bod y cludwr yn casglu mwy nag un llwyth o wastraff peryglus yn ystod y daith;

(b) bod pob llwyth yn cael ei gasglu o fangre wahanol (nad yw unrhyw un ohonynt yn llong);

(c) bod pob mangre y cesglir ohoni yng Nghymru; ac

(ch) bod pob llwyth a gesglir yn cael ei gludo gan y cludwr hwnnw yn ystod y daith at yr un traddodai,

a chyfeirir at daith sy'n bodloni'r amodau hyn yn y Rheoliadau hyn fel "amlgasgliad".

(2) Os yw'r cludwr yn dewis cymhwyso'r weithdrefn amlgasgliad a nodir yn y rheoliad hwn i amlgasgliad, mae gofynion y rheoliad hwn yn gymwys i'r cludwr, ac i'r cynhyrchwyr, deiliaid a thraddodwyr y llwythi a gesglir yn ystod y cylch casglu.

(3) Cyn y casgliad cyntaf, rhaid i'r cludwr—

(a) paratoi dau gopi o'r nodyn casglu amlgasgliadau, a chopi pellach ar gyfer pob cynhyrchydd neu ddeiliad gwastraff peryglus, yn ôl y digwydd, y cesglir y gwastraff oddi wrtho yn ystod y cylch, ac un copi i bob traddodwr, mewn achosion pan nad cynhyrchydd, neu ddeiliad y gwastraff peryglus, yn ôl y digwydd, yw'r traddodwr;

(b) cwblhau Rhannau A a B ar bob copi.

(4) Cyn symud gwastraff o bob set o fangreoedd lle gwneir casgliad—

(a) rhaid i'r cynhyrchydd, neu'r deiliad, gwblhau'r atodlen i'r nodyn traddodi ar gyfer amlgasgliadau ar bob copi;

(b) rhaid i'r traddodwr a'r cludwr lofnodi eu priod ddatganiadau yn yr atodiad i'r nodyn traddodi ar gyfer amlgasgliadau ar bob copi o'r nodyn; ac

(c) rhaid i'r cludwr drosglwyddo copi sydd wedi'i gwblhau i'r cynhyrchydd neu'r deiliad ym mhob achos (ac os nad y cynhyrchydd na'r deiliad yw'r traddodwr, i'r traddodwr).

(5) Ar ôl casglu'r llwyth olaf ond cyn ei gyflwyno i'r traddodai, rhaid i'r cludwr gwblhau'r manylion sydd i'w cwblhau gan y cludwr yn adran C ar y ddau gopi sy'n weddill o'r nodyn traddodi.

(6) Yn ddarostyngedig i reoliad 42, pan fydd y gwastraff wedi'i draddodi—

(a) rhaid i'r cludwr drosglwyddo i'r traddodai y ddau gopi sy'n weddill o'r nodyn;

(b) rhaid i'r traddodai gwblhau'r manylion sydd i'w cwblhau gan y traddodai yn Adran C a chwblhau'r dystysgrif yn rhan D o'r nodyn ar y ddau gopi; ac

(c) rhaid i'r traddodai ddychwelyd un copi o'r nodyn sydd wedi'i gwblhau i'r cludwr.

**Symud gwastraffoedd llongau i gyfleusterau derbyn**

**39.**—(1) Mae'r Rheoliad hwn yn gymwys os symudir gwastraff peryglus o long (gan gynnwys gormodedd neu ollyngiadau drwy lwytho neu ddadlwytho, a gafodd eu gollwng yn ddamweiniol ar dir yn gyfagos â'r llong) mewn ardal harbwr—

(a) i gyfleusterau derbyn a ddarperir yn yr ardal harbwr honno; neu

(b) drwy biblinell i unrhyw gyfleusterau o'r fath a ddarperir y tu allan i ardal harbwr.

(2) Cyn bod y gwastraff yn cael ei symud o'r llong rhaid i feistr y llong—

(a) paratoi dau gopi o'r nodyn traddodi;

(b) cwblhau Rhannau A, B a D ar bob copi;

(c) cadw un copi; ac

(ch) rhoi un copi i weithredydd y cyfleusterau.

(3) Yn ddarostyngedig i reoliad 42, wrth dderbyn llwyth o wastraff peryglus rhaid i weithredydd y cyfleusterau gwblhau Rhan E ar y copi a dderbyniodd.

**Symud gwastraffoedd llongau heblaw i gyfleusterau derbyn**

**40.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys os symudir gwastraff peryglus o long mewn ardal harbwr heblaw mewn achos y mae rheoliad 39 yn gymwys iddi.

(2) Cyn symud y llwyth—

(a) rhaid i feistr y llong—

(i) paratoi tri chopi o'r nodyn traddodi;

(ii) cwblhau Rhannau A a B ar bob copi; a

(iii) rhoi pob copi i'r cludwr;

(b) rhaid i'r cludwr gwblhau Rhan C ar bob copi;

(c) rhaid i feistr y llong—

(i) cwblhau Rhan D ar bob copi;

(ii) cadw un copi; a

(iii) rhoi pob copi sy'n weddill i'r cludwr;

(ch) rhaid i'r cludwr sicrhau bod pob copi a dderbyniodd—

(i) yn mynd gyda'r llwyth; a

(ii) yn cael ei roi i'r traddodai pan draddodir y llwyth.

(3) Yn ddarostyngedig i reoliad 42, wrth dderbyn y llwyth, rhaid i'r traddodai—

(a) cwblhau Rhan E ar y ddau gopi; a

(b) rhoi un copi i'r cludwr.

**Symud gwastraff drwy biblinell**

**41.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys os symudir gwastraff peryglus o unrhyw fangre (heblaw llong), lle caiff ei gynhyrchu neu ei storio, drwy biblinell.

(2) Cyn rhoi'r gwastraff mewn piblinell, ac, os yw'r piblinellu'n barhaus, ar ddechrau pob chwarter rhaid i'r cynhyrchydd, neu'r deiliad, yn ôl y digwydd—

(a) paratoi un copi o'r nodyn traddodi ar gyfer pob un o'r canlynol: y cynhyrchydd neu'r deiliad, yn ôl y digwydd (os yw'n wahanol i'r traddodwr), y traddodwr a'r traddodai;

(b) cwblhau Rhannau A, B a D ar bob copi, gyda'r ddarpariaeth bod yn rhaid cofnodi cyfradd y llif cyfartalog yn Rhan B3, ynghyd ag amcangyfrif o gyfanswm cyfaint y gwastraff sydd i'w biblinellu fesul wythnos neu fis calendr.

(3) Rhaid i'r traddodai gwblhau Rhan E ar bob copi gyda'r addasiadau canlynol—

(a) yn Rhan E1, bernir bod y cyfeiriad at y dyddiad pan dderbyniwyd y gwastraff yn gyfeiriad at y dyddiad diwethaf pan dderbyniwyd y gwastraff gan y traddodai yn unol â'r nodyn traddodi hwnnw; a

(b) yn Rhan E2, nid oes angen manylion cofrestru'r cerbyd.

(4) Rhaid i'r traddodai gadw un copi a sicrhau bod copi yn cael ei roi i'r traddodwr, ac i gynhyrchydd neu ddeiliad y gwastraff peryglus, os yw'n wahanol i'r traddodwr.